# Ysgol Gynradd Alaw

WCIA
WELSH CENTRE FOR INTERNATIONAL AFFAIRS
CANOLFAN MATERION RHYNGWLADOL CYMRU

## Cyflwyniad

Mae Ysgol Gynradd Alaw yn Nhonypandy yn Ysgol Aur Sy'n Parchu Hawliau, lle mae disgyblion yn dysgu am eu hawliau a'u rhyddid. Roeddent o'r farn y byddai dod yn Ysgol Heddwch yn gam naturiol tuag at gyflawni eu nodau a'u hethos presennol ac felly, fe wnaethant benderfynu ymuno â'r cynllun.

Mae staff a myfyrwyr wedi ymrwymo'n llawn i heddwch, ac mae'r holl ddyddiadau a'r diwrnodiau pwysig perthnasol yn cael eu marcio a'u dathlu drwy gydol y flwyddyn ysgol. Mae heddwch yn un o'r 12 gwerth mae disgyblion yn dysgu amdanynt ar hyn o bryd, ac mae'n werth sydd o'r pwys mwyaf.




*GWNEUD RHYWBETH DROS HEDDWCH- ARDDANGOSFA HEDDWCH*

**Beth wnaeth wneud i chi benderfynu dod yn Ysgol Heddwch?**

Rydym yn credu bod llais y disgybl yn bwysig, ac rydym yn annog disgyblion i siarad am bynciau lleol a chenedlaethol sy'n effeithio arnyn nhw ac eraill.

Rydym eisiau i'n disgyblion fod yn ddinasyddion moesegol, gwybodus, a chael dealltwriaeth o sut y gall camau bach effeithio ar eraill mewn ffordd bositif. Mae'r cynllun yn cyd-fynd yn dda â'r Nodau Datblygu Cynaliadwy a'n gwaith ar ddeall democratiaeth hefyd, i gefnogi dysgwyr i ddod yn ddinasyddion byd-eang gweithgar.

**Ydy'n bosibl cynnwys straeon heddwch yn y cwricwlwm?**

Ydy. Rydym wedi creu ein hymgyrch ein hunain dros heddwch a newid, ac wedi archwilio caneuon protest a gwaith celf. Mae'r Prosiect Heddwch yn rhedeg ochr yn ochr â rhaglenni Llysgenhadon Ysgolion ac Ysgolion sy'n Parchu Hawliau y Senedd.

**Beth ydy'r canlyniadau?**

Nawr, mae plant yn deall sut maen nhw'n gallu lleisio eu barn, ac maen nhw wedi cymryd rhan mewn gwneud penderfyniadau ac mewn grwpiau herio sgiliau meddwl beirniadol.

## Yr effaith hyd yn hyn

Mae defnyddio dulliau adferol o ymdrin ag ymddygiad positif wedi gwella sut mae disgyblion yn datrys eu problemau eu hunain, yn ceisio cyngor ac yn cydweithio dros heddwch yn eu hystafelloedd dosbarth a'u grwpiau o ffrindiau. Mae gwersi ymwybyddiaeth ofalgar wedi cael eu hymestyn drwy'r ysgol gyfan.

Mae ardal newydd sbon o'r enw 'Dosbarth y Byd' wedi cael ei chreu, lle mae disgyblion wedi datblygu eu cysylltiadau rhyngwladol, ac edrych ar sut mae bywyd yn wahanol ac yn debyg i blant yn Uganda a Chymru.

Mae dosbarthiadau babanod wedi datblygu dealltwriaeth o emosiynau a theimladau. Mae Plant Bl 2/3/4 wedi canolbwyntio ar ddathlu amrywiaeth, edrych ar fodelau rôl positif, ac ymdrechu i gael heddwch o fewn y gymuned. Ym mlwyddyn 6, rydym wedi canolbwyntio ar herio stereoteipiau a hyrwyddo iaith y corff positif. Mae Blynyddoedd 3/4 wedi gweithio gydag artist i greu dinas chwilod, a hyrwyddo cydweithio positif drwy chwarae.

**"Mae angen i blant ddod o hyd i heddwch personol, yn ogystal â deall goblygiadau byd-eang heddwch."**